# DAVIES, DAVID JOHN (1870 - ?), arlunydd

**Enw:** David John Davies
**Dyddiad geni:** 1870
**Dyddiad marw:** ?
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arlunydd
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Harold Williams

Ganwyd 16 Mawrth 1870 yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, mab i farcer. Cafodd addysg rydd yn Ysgol Gelf Kidderminster, a chafodd gymorth casgliad cyhoeddus a wnaethpwyd yn Llandeilo i fynd i Antwerp i astudio am ddwy flynedd. Agorodd stiwdio yn Llanelli a bu yno am bedair blynedd gan gael D. Pugh, A.S., yr Arglwydd Dynevor, yr Arglwydd Emlyn, Mansel Lewis, a Mrs. Gwynne Hughes, Tregyb, Llandeilo, yn noddwyr iddo. Arwyddodd ei waith cynnar gyda'r enw ' D. J. Davies '; yn ddiweddarach mabwysiadodd ' Dyer Davies ' yn enw iddo'i hun oblegid bod cysylltiad rhwng ei fam a theulu Dyer, Aberglasney - gweler yr erthygl ar John Dyer. Yr oedd yn gwneuthur tirluniau a lluniau personau; gwnâi hefyd ddarluniau i *Wales (O.M.E.)* ynghyd â gwawdluniau a brofai fod ganddo syniadau radicalaidd pur eithafol. Yn *David Davies*, dychanlyfr gwleidyddol Beriah Gwynfe Evans, y ceir ei gartwnau gwleidyddol gorau.

Aeth o Lanelli i Lundain i weithio ar y *Graphic*, eithr dychwelodd i Gymru yn ddiweddarach ac agor stiwdio yn Llandeilo. Yn 1899, pan oedd yn anterth ei boblogrwydd, aeth i Ddeheudir Affrica adeg y rhyfel â'r Boeriad i fod yn artist a newyddiadurwr yn gweithio ar ei ben ei hun, a chafodd ei osod gyda brigâd gw r meirch yr arglwydd Roberts. Arhosodd yn y wlad honno wedi i'r rhyfel ddyfod i'w derfyn; yn 1924, yn yr ' Empire Exhibition ' yn Wembley, arddangoswyd ei ' African Sunset.' Ni wyddys pa bryd y bu farw.

Mewn casgliadau preifat y mae y rhan fwyaf o'i bortreadau o bersonau yn aros. Ceir, fodd bynnag, ei ' Portrait of an unknown man ' yn ystafell cyngor Llandeilo, ac y mae portread mewn olew o'i waith o'r Parch. William Davies, aldramon, yng nghapel y Tabernacl, yn yr un dref.

## Awdur

**Harold Williams**

## Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei chwaer a chan ffrindiau

## Gweithiau

Amgueddfa Cymru: Maerdy Nos.1 & 2 Pits (Rhondda Fach)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732837

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu